Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dysgu Cymraeg Sir Gâr/Learn Welsh Carmarthenshire

**Cyngor Sir Gâr**
**Parc Dewi Sant**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA31 3HB**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Dysgu Cymraeg Sir Gâr/Learn Welsh Carmarthenshire

Ad-drefnwyd y sector Cymraeg i oedolion yn 2016 gan sefydlu Canolfan Genedlaethol a rhwydwaith o ddarparwyr ar draws Cymru. Sefydlwyd Dysgu Cymraeg Sir Gâr (DCSG) yn ystod yr ad-drefnu hwn ac fe'i lleolir o fewn Adran Addysg a Phlant awdurdod lleol Sir Gâr. Mae DCSG yn ddarparwr llawn ac annibynnol o dan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (GDCG).

DCSG yw'r darparwr lleiaf yng Nghymru gyda thua 400 o ddysgwyr ar gyfartaledd yn mynychu cyrsiau prif ffrwd a thros 300 o ddysgwyr yn mynychu cyrsiau atodol bob blwyddyn. Mae'n derbyn grant craidd o £147,396 gan y GDCG. Cynigir cyrsiau prifffrwd dwy awr yr wythnos ar lefel Mynediad i Ganolradd, yn ogystal â gweithgareddau i gefnogi dysgwyr ar-lein wrth ddarparu cyfleoedd iddynt ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol. Nid yw DCSG yn darparu cyrsiau dwys ac uwch. Derbyniwyd £25,000 yn ychwanegol gan GDCG fel tâl unigryw ddechrau'r flwyddyn hon er mwyn darparu cyrsiau cyfunol i ddysgwyr ar lefel Mynediad i Ganolradd, sef cyrsiau sy'n cefnogi dysgwyr i ddysgu Cymraeg o fewn amser mwy dwys.

Mae'r darparwr yn cyflogi dau swyddog canolog amser llawn, sef Swyddog Dysgu Cymunedol Cymraeg i Oedolion sydd yn gyfrifol am arwain y darparwr yn strategol, a Swyddog Dysgu Cymraeg sy'n gyfrifol am ddata a marchnata. Mae 13 thiwtor ar gytundeb fesul cwrs yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth.

Mae gan DCSG un cytundeb Cymraeg Gwaith ar hyn o bryd sy'n cefnogi gweithwyr y Cyngor Sir, sef cwrs Hyder. Yn ogystal, darperir cyrsiau i staff ysgolion sy'n cael eu cyllido'n annibynnol gan yr awdurdod lleol.

## Trosolwg

Mae swyddogion Dysgu Cymraeg Sir Gâr (DCSG) yn cydweithio’n gyson gydag arweinwyr Adran Addysg a Phlant Cyngor Sir Gâr wrth ddarparu cyrsiau mynediad, sylfaen, canolradd a chyrsiau gweithle a Chymraeg Gwaith i ddysgwyr. Mae arweinwyr DCSG wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau sy’n gyson ag amcanion y Ganolfan Genedlaethol a gweledigaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mae Swyddog Dysgu Cymunedol Cymraeg i Oedolion DCSG yn arwain y ddarpariaeth yn frwdfrydig ac yn sicrhau cefnogaeth ofalgar i diwtoriaid a dysgwyr. Mae bron bob tiwtor yn creu amgylchedd ddysgu gynhwysol ac yn arddel perthynas weithiol a chynhaliol i ddysgwyr. Ar y cyfan, mae tiwtoriaid yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddysgwyr siarad ac ymarfer eu Cymraeg yn y gwersi. Mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw disgwyliadau tiwtoriaid yn ddigon uchel. Mae hyn yn llesteirio hyder a gallu ychydig o ddysgwyr i ddod yn siaradwr Cymraeg gweithredol yn y gwersi a’r gymuned ehangach. Mae'r darparwr yn cynnal trefniant o arsylwadau sy’n darparu arweiniad i diwtoriaid, er enghraifft wrth sicrhau bod yr addysgu a’r dysgu wedi gallu parhau yn ystod cyfnod y pandemig. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw trefniadau monitro a gwerthuso’r darparwr yn ddigon arfarnol er mwyn datblygu'r addysgu a'r dysgu.

Ar y cyfan, mae llawer o ddysgwyr yn mynychu gwersi yn gyson a chwblhau eu cyrsiau ac mae tua hanner y dysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau dilyniant. Mae'r darparwr yn cydweithio â Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys Sir Gâr (DCCPSG) sydd yn darparu cyrsiau uwch, dwys ac atodol i ddysgwyr yr ardal. Mae mwyafrif tiwtoriaid DCSG yn hyrwyddo a recriwtio dysgwyr i fynychu cyfleoedd atodol a ddarperir gan DCCPSG yn briodol. Mae lleiafrif y dysgwyr yn mynychu’r sesiynau hyn er mwyn eu cefnogi i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae llawer ohonynt yn defnyddio’r Gymraeg yn fuddiol mewn gweithgareddau eraill y tu allan i wersi ffurfiol, er enghraifft wrth ddefnyddio gweithgareddau ar-lein ac apiau dysgu Cymraeg. At ei gilydd, mae dysgwyr ar draws y ddarpariaeth yn falch o fod yn aelodau o’r gymuned glòs hon ac yn gwerthfawrogi’r cyfle i ddatblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Creu diwylliant o ddisgwyliadau uchel i gefnogi dysgwyr i fod yn siaradwyr gweithredol

A2 Mireinio a datblygu trefniadau hunanwerthuso er mwyn blaenoriaethu a gweithredu ar feysydd i'w gwella yn fwriadus ac amserol

A3 Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i diwtoriaid wrth wella ansawdd yr addysgu

A4 Cydweithio â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wella ansawdd a safonau ar draws y ddarpariaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Dim mewn categori gweithgarwch dilynol. Bydd cynnydd yn erbyn argymhellion yn cael ei fonitro yn arolygiad nesaf y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau:  Digonol ac angen gwella**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr Dysgu Cymraeg Sir Gâr (DCSG) yn cyfranogi'n frwd yn eu gwersi ac yn dyfalbarhau'n briodol i gwblhau tasgau. Maent yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr ac yn gallu esbonio'n glir eu rhesymau dros ddysgu'r Gymraeg. Mae llawer o ddysgwyr yn adalw dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus ac yn siarad yn unol â'u lefel ieithyddol gan ymateb i sbardunau llafar yn effeithiol.

Mae mwyafrif o ddysgwyr ar lefelau mynediad a sylfaen yn deall a defnyddio strwythurau'r Gymraeg yn foddhaol. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn rhy barod i droi at Saesneg yn lle defnyddio'r iaith darged. Ar draws y ddarpariaeth, lleiafrif o'r dysgwyr sy'n siarad yn ddigymell â'i gilydd ac â'r tiwtor yn Gymraeg. Mae ychydig o ddysgwyr, yn arbennig ar lefelau mynediad a sylfaen, yn gwneud cynnydd sy'n is na'r lefel ddisgwyliedig ac yn parhau i ynganu seiniau sylfaenol y Gymraeg yn anghywir.

Mae llawer o ddysgwyr ar lefel canolradd ac ar gyrsiau Hyder y rhaglen Cymraeg Gwaith yn siarad yn hyderus ac yn medru sgwrsio'n rhwydd am sefyllfaoedd amrywiol. Er enghraifft, wrth iddynt drafod y gwahaniaeth rhwng gweithio gartref yn lle gweithio mewn swyddfa yn sgil y pandemig.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau darllen yn werthfawr. Mae'r rhan fwyaf, yn unol â'u lefel, yn darllen ar goedd yn gynyddol gywir. Mae llawer o ddysgwyr ar lefel mynediad yn darllen iaith elfennol fel manylion personol, gorchmynion syml a brawddegau byrion yn yr amser presennol yn briodol. Maent hefyd yn datblygu dealltwriaeth o amseroedd gwahanol y ferf yn ddefnyddiol gan gynnwys y gorffennol cryno a'r dyfodol cwmpasog.

Erbyn lefel sylfaen, mae llawer o ddysgwyr yn darllen a deall ystod ehangach o amseroedd y ferf gan gynnwys y dyfodol cryno rheolaidd ac afreolaidd, yn ogystal â'r amodol. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn llwyddo i ddygymod â darnau darllen mwy amrywiol a chymhleth. Mae llawer o ddysgwyr lefel canolradd yn datblygu'r medrau hyn yn effeithiol fel eu bod yn darllen erthyglau ar wefannau newyddion gyda chymorth geiriaduron rhyngweithiol yn ystyrlon.

Wrth ddechrau ysgrifennu, mae llawer o ddysgwyr ar lefel mynediad yn adeiladu ar eu medrau darllen elfennol yn werth chweil i gyflawni tasgau syml. Er enghraifft, maent yn llenwi bylchau gan gymhwyso eu gwybodaeth am batrymau a geirfa sylfaenol. Maent yn datblygu ymhellach gan gwblhau a phersonoli cardiau post am wyliau dychmygol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr lefel sylfaen yn ymestyn eu medrau ysgrifennu trwy greu brawddegau sy'n cyfuno'r amherffaith a'r cymal enwol gan dreiglo yn foddhaol, ar y cyfan. Mae lleiafrif yn dueddol o gamddefnyddio treigladau, er enghraifft trwy beidio â threiglo gwrthrych y ferf yn dilyn berf gryno, ond nid yw hyn yn effeithio ar lif eu gwaith yn gyffredinol. At ei gilydd, gwelir cynnydd cyson yng ngwaith ysgrifennu dysgwyr lefel sylfaen wrth iddynt ddefnyddio'r dyfodol cryno rheolaidd ac afreolaidd a'r dyfodol cwmpasog i greu darnau mwy cymhleth eu strwythur. Mae ychydig yn dueddol o orddefnyddio'r fannod neu yn ei defnyddio'n amhriodol o bryd i'w gilydd.

Erbyn cyrraedd lefel canolradd, mae llawer o ddysgwyr yn cyfuno eu medrau darllen ac ysgrifennu'n yn fuddiol trwy gwblhau tasgau fel llenwi ffurflenni ac ymarferion darllen a deall. Llwyddant i ddarllen testun am geiswyr lloches yn dysgu'r Gymraeg ac maent yn ysgrifennu brawddegau yn yr amhersonol i ddisgrifio ac ymateb i gynnwys yr erthygl yn ystyrlon.

Dros gyfnod o dair blynedd, mae llawer o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau. Ar gyfartaledd, mae tua hanner y dysgwyr yn symud ymlaen i gyrsiau dilynol. Mae llawer o ddysgwyr yn mynychu eu cyrsiau'n gyson.

Ni chynhaliwyd cyfres lawn o arholiadau Cymraeg i Oedolion gan CBAC yn ystod 2019-2020 a 2020-2021. Er hynny, dros gyfnod o dair blynedd, mae tua hanner y dysgwyr cymwys yn dewis sefyll arholiadau ac mae'r rhan fwyaf yn llwyddo.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae DCSG yn gymuned gyfeillgar a chynhwysol lle mae bron bob dysgwr yn dangos brwdfrydedd at ddysgu Cymraeg. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi os bydd angen cymorth neu gyngor arnynt. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyfranogi'n llwyddiannus ac yn datblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol.

Mae bron bob dysgwr yn teimlo'n hapus a chartrefol yn y gwersi gan ddangos mwynhad amlwg o roi cynnig ar siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus. Maent yn rhyngweithio'n llwyddiannus mewn pâr neu grŵp ac yn canolbwyntio pan fyddant yn dysgu a defnyddio elfennau ieithyddol newydd. Mae rhan fwyaf ohonynt yn hynod groesawgar wrth ymgysylltu ag ymwelwyr gan ddangos parodrwydd i ymateb yn briodol i gwestiynau. Mae llawer yn awyddus i siarad Cymraeg wrth gyflwyno gwybodaeth ac yn ymestyn eu dealltwriaeth o eirfa a phatrymau cystrawennol o fewn gwersi yn effeithiol. Mae mwyafrif yn cwblhau gwaith cartref yn achlysurol sy'n eu cefnogi i ddefnyddio Cymraeg sydd wedi'i chyflwyno'n flaenorol yn y dosbarth.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r ymateb a'r gweithredu buddiol gan y darparwr i fodloni eu hanghenion personol ac addysgol. Mae'r cynigion cyson i gefnogi eu hanghenion addysgol ar-lein drwy gynnig cymorth drwy'r gronfa dlodi digidol yn gryfder wrth gefnogi dysgwyr i barhau i ddysgu Cymraeg. At ei gilydd, nid yw rhan fwyaf o ddysgwyr yn cael budd o drafod eu cynnydd personol yn erbyn eu targedau yn Defnyddio fy Nghymraeg gyda'u tiwtoriaid i gefnogi cynnydd yn ddigon rheolaidd.

Mae lleiafrif o ddysgwyr yn manteisio ar fynychu digwyddiadau cefnogi dysgwyr lle ceir cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu medrau gwrando a mwynhau siarad Cymraeg ymhellach, er enghraifft wrth drefnu sesiynau Te Prynhawn a Chlwb Clecs. Trefnir cyflwyniadau gan enwogion o fyd llenyddiaeth a byd cyhoeddus a chyflwynir gwybodaeth am hanes Cymru yn llwyddiannus, er enghraifft wrth drafod hanes Owain Glyndŵr a Ray Gravell fel rhan o'r thema arwyr. At ei gilydd, mae lleiafrif y dysgwyr yn ymwybodol o'r rhesymau dros ddysgu Cymraeg ac yn deall bod eu medrau bywyd yn cael eu cyfoethogi a'u hymestyn yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddysgwyr yn gyfarwydd â'r drefn lleisio barn ac maent yn hyderus bod y darparwr yn gwrando ar eu llais a'u cefnogi'n bwrpasol. Er enghraifft, yn sgil adborth

gan ddysgwyr, mae tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr yn effeithiol wrth ddarparu canllawiau manwl ar gyfer dysgu a chyflwyno gwaith ar-lein. Yn gyffredinol, mae ychydig o ddysgwyr yn ansicr o ddisgwyliadau a lefel gywir cyrsiau cyfunol cenedlaethol wrth iddynt gofrestru â'r darparwr.

Mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol o bryd i'w gilydd mewn grwpiau i ymgysylltu â'i gilydd a'u tiwtoriaid er mwyn cefnogi ei gilydd, er enghraifft wrth holi am gymorth gyda'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol. Mae llawer yn defnyddio gweithgareddau ar-lein ac apiau dysgu Cymraeg i gefnogi eu dysgu o bryd i'w gilydd, sy'n cefnogi eu cynnydd yn gyson. O ganlyniad, mae mwyafrif y dysgwr yn dyfalbarhau'n ddygn sydd, yn ei dro, yn eu cefnogi i fagu hyder i siarad Cymraeg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu:  Digonol ac angen gwella**

Mae DCSG yn derbyn cyllid gan GDCG i ddarparu gwersi o lefel mynediad hyd at ganolradd, a gwersi Hyder sy'n rhan o'r rhaglen Cymraeg Gwaith. Mae'r gwersi'n cefnogi dysgwyr ar bob lefel i ddatblygu eu medrau Cymraeg, gyda'r gwersi Hyder yn cynnig cefnogaeth effeithiol i ddysgwyr lled rhugl ddatblygu eu medrau yn llwyddiannus. Mae'r bartneriaeth gyda DCCPSG yn darparu cyfleoedd perthnasol i ddysgwyr barhau i ddysgu Cymraeg ar lefelau uwch. At ei gilydd, mae'r ddarpariaeth yn cefnogi llawer o ddysgwyr i ddatblygu eu medrau i ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol hyderus.

Mae bron bob tiwtor yn creu amgylchedd ddysgu gynhwysol a chynhaliol wrth gefnogi dysgwyr i wneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg. Maent yn arddel perthynas weithiol a gofalgar gyda dysgwyr, ac yn darparu cyfleoedd addas iddynt ymarfer eu Cymraeg. Mae llawer o diwtoriaid yn ennyn a chynnal diddordeb dysgwyr yn llwyddiannus wrth gyflwyno gweithgareddau sy'n eu hannog i siarad Cymraeg yn gyson trwy gydol y wers. Mae llawer o diwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i siarad mewn parau neu grwpiau bach wrth drafod testunau diddorol, fel fy hoff wyliau neu y tri pheth pwysicaf ar fy rhestr fwced. Mae mwyafrif y tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i glywed ac ynganu geiriau anghyfarwydd yn gywir, sydd yn ei dro yn cael effaith briodol ar eu medrau darllen ac ysgrifennu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr yn ddigon effeithiol i ynganu a defnyddio geirfa a phatrymau cystrawennol Cymraeg newydd yn gynyddol gywir a hyderus.

Trwy amrywio dulliau dysgu a sicrhau cyflymder addas i'r wers, mae llawer o diwtoriaid yn cyflwyno gwybodaeth am strwythur y Gymraeg yn fedrus ar draws y lefelau. Maent yn modelu geirfa a phatrymau cystrawennol yn ofalus ac yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr eu hymarfer yn briodol. Er enghraifft, mae tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i gymhwyso geirfa a phatrymau penodol wrth iddynt ddangos ffotograff a chyflwyno gwybodaeth am y teulu. Mae llawer o diwtoriaid yn cyfoethogi profiad dysgu Cymraeg dysgwyr yn fedrus wrth ddarparu gwybodaeth a chwisiau am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft wrth iddynt gyflwyno cerddoriaeth draddodiadol a chyfoes Cymraeg i ddysgwyr.

Mae mwyafrif o diwtoriaid yn darparu adborth llafar defnyddiol wrth ymyrryd a herio dysgwyr i ddatblygu eu medrau trwy ddefnyddio dulliau holi medrus a chynnig cynhaliaeth sensitif. Ar y cyfan, mae dysgwyr yn ymateb yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddwyn gwybodaeth flaenorol am y Gymraeg i gof, er enghraifft wrth ddefnyddio

patrymau cyfarwydd wrth ddarllen a thrafod testunau amrywiol. Mae lleiafrif y dysgwyr yn magu hyder i holi ac ateb cwestiynau yn briodol ac yn ymarfer y Gymraeg gyda'i gilydd a'r tiwtor. Nid yw lleiafrif y tiwtoriaid yn cywiro gwallau siarad dysgwyr yn ddigon cyson wrth eu cefnogi i siarad Cymraeg yn fwyfwy cywir, nac yn gweithredu'n ddigon rhagweithiol ar nodau dysgu unigol dysgwyr.

Mae llawer o diwtoriaid yn datblygu medrau ysgrifennu dysgwyr wrth ddarparu gwaith cartref, fel y bo'n briodol, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio gwybodaeth o gwmwl geiriau i ddisgrifio eu cartrefi. Mae llawer o diwtoriaid yn darparu adborth ysgrifenedig addas ar y gwaith fel cyfrwng i ddysgwyr wneud cynnydd. Fodd bynnag, mae lleiafrif y tiwtoriaid yn rhy barod i gefnogi dysgwyr trwy ddarparu cyfieithiadau llafar o eiriau a phatrymau i Saesneg. Mae hyn, yn ei dro, yn caniatáu i ddysgwyr fod yn oddefol yn eu dysgu wrth iddynt aros am y gefnogaeth honno. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y tiwtoriaid yn annog dysgwyr yn ddigon rhagweithiol i siarad Cymraeg yn annibynnol. At ei gilydd, nid yw disgwyliadau ychydig o diwtoriaid yn ddigon uchel, sy'n llesteirio gallu dysgwyr i wneud digon o gynnydd yn eu medrau, yn enwedig dysgwyr sy'n fwy hyfedr eu medrau Cymraeg.

Mae'r darparwr yn cynnig arlwy briodol i gefnogi dysgwyr i wrando ac ymarfer siarad Cymraeg. Yn gyffredinol, nid yw tiwtoriaid yn hyrwyddo a recriwtio dysgwyr yn ddigon effeithiol i'w hannog yn fwriadus i fynychu sesiynau atodol a ddarperir gan DCCPSG. O ganlyniad, nid yw mwyafrif y dysgwyr yn mynychu'r sesiynau hyn. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar eu dymuniad i ddod yn siaradwyr gweithredol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r darparwr yn llwyddo i greu cymuned glòs a chyfeillgar sy'n cynnig gofal a chefnogaeth dda i'w dysgwyr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les dysgwyr a'u hagweddau at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarnhaol â'i gilydd. O ganlyniad, mae cymhelliant dysgwyr yn uchel ac mae hyn yn effeithio'n gyson ar eu profiad dysgu.

Mae gan y darparwr drefniadau olrhain cadarn i fonitro presenoldeb. Mae'r cofrestri'n cael eu llenwi gan y tiwtoriaid yn amserol a'u gwirio'n effeithiol gan arweinwyr. Mae tiwtoriaid yn cysylltu'n gyson â dysgwyr drwy e-bost neu lwyfan cyfrwng cymdeithasol er mwyn eu hannog i fynychu gwersi neu ddychwelyd i'r dosbarth pan fyddant wedi colli sesiynau. Yn ogystal, trefnir sesiynau dal i fyny gyda thiwtor neu reolwr er mwyn cefnogi dysgwyr i ailymuno â'r gwersi. Os nad oes modd i ddysgwyr ailymuno mewn modd amserol, mae'r darparwr yn darparu cyfle iddynt ymuno â chwrs yn ddiweddarach.

Er mwyn annog dysgwyr i ymrestru, mae'r darparwr yn sicrhau bod ffynonellau amrywiol ar gael sy'n cynnig cefnogaeth ariannol iddynt. Mae hyn yn cynnwys cyfnod estynedig o'r Cyw Cynnar, bwrsari mewnol ble mae modd i ddysgwyr wneud cais amdano, cronfa tlodi digidol a'r gronfa ariannol wrth gefn er mwyn iddynt gael cymorth gydag ystod o declynnau, a chynllun benthyca cyfarpar. O ganlyniad, mae hyn yn cefnogi dysgwyr yn gynhwysol i barhau i ddysgu Cymraeg. Trwy gefnogaeth gyson y darparwr, mae hyn yn lleddfu unrhyw bryder neu rwystr diangen i ddysgwyr.

Mae'r darparwr yn rhannu gwybodaeth gyson â dysgwyr wrth iddynt ddewis eu cyrsiau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth berthnasol gan diwtor cyrsiau dilyniant,

prosbectws ar-lein, taflenni mewn llyfrgelloedd, ac ati. At ei gilydd, mae'r darparwr yn cyfeirio dysgwyr at y cwrs mwyaf addas er mwyn diwallu eu hanghenion personol. Pan na fydd cwrs yn addas, mae arweinwyr yn darparu cefnogaeth briodol i ddysgwyr ymrestru ar gwrs amgen neu gwrs yn hwyrach yn y flwyddyn.

Mae trefniadau cyfathrebu perthnasol o fewn y ddarpariaeth i adnabod dysgwyr sydd angen cymorth personol ac arbenigol. Mae dysgwyr yn derbyn e-bost croeso sy'n tynnu eu sylw at y gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael iddynt ac mae unrhyw ofynion a wneir gan ddysgwr yn cael eu rhaeadru i'r tiwtor perthnasol. Yn ogystal, gweithredir trefniant cyson ble mae tiwtoriaid yn rhaeadru gwybodaeth ychwanegol yn ôl i'r rheolwr er mwyn derbyn cefnogaeth bellach yn ôl yr angen yn effeithiol.

Gwna diwtoriaid ychydig iawn o ddefnydd o Defnyddio fy Nghymraeg wrth gefnogi dysgwyr i siarad Cymraeg. Nid oes proses gadarn ar waith ar gyfer gosod targedau i herio'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth yn rheolaidd. O ganlyniad, lleiafrif y dysgwyr sy'n cyfranogi mewn digwyddiadau penodol ac yn manteisio ar gyfleoedd amgen i ddefnyddio'u Cymraeg yn gyson. Serch hyn, mae DCSG yn cydweithio'n gyson â thair menter iaith yn yr ardal yn ogystal â nifer o sefydliadau a mudiadau Cymreig eraill wrth ddarparu sesiynau cefnogi perthnasol i ddysgwyr. Hysbysebir y sesiynau cefnogi hyn yn briodol gan diwtoriaid sy'n cefnogi dysgwyr i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau bywyd go iawn o fewn eu cymunedau.

Mae'r darparwr yn sefydlu trefniadau clir i gywain barn dysgwyr trwy wahodd aelodau o bob dosbarth i ethol cynrychiolydd ar ddechrau'r cwrs. Cynhelir Fforwm y Dysgwyr yn dymhorol a thrafodir amryw agweddau o'r ddarpariaeth yn gyson. Mae tiwtoriaid yn sicrhau bod dysgwyr yn derbyn holiadur Dweud Eich Dweud yn flynyddol, gyda thua hanner ohonynt yn ei gwblhau'n briodol. Yn ogystal, mae'r darparwr yn anfon holiaduron at ddysgwyr ar ddiwedd cyrsiau atodol er mwyn caffael gwybodaeth am eu profiad o ddysgu Cymraeg. Yn fwy diweddar, mae'r darparwr yn anfon holiadur at ddysgwyr sy'n gadael eu cyrsiau'n gynnar fel cyfrwng i gaffael gwybodaeth ddefnyddiol am y rhesymau dros wneud hynny. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth sy'n deillio o'r Fforwm a'r holiaduron yn cael effaith ddigon bwriadus ar brofiadau dysgu Cymraeg dysgwyr ar draws y ddarpariaeth.

Mae proses ganmol a chwyno effeithiol ar waith gan y darparwr a chaiff ei gweithredu'n effeithiol, fel y bo'n briodol. Mae gan y darparwr drefniadau ar gyfer diogelu dysgwyr sy'n bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae DCSG yn rhan o ddarpariaeth Adran Addysg a Phlant awdurdod lleol Sir Gâr. Mae arweinwyr DCSG wedi sefydlu gweledigaeth glir a nodau sy'n gyson ag amcanion y Ganolfan Genedlaethol a gweledigaeth Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Maent yn datblygu ystod o bolisïau a threfniadau perthnasol sy'n cefnogi a bodloni anghenion dysgwyr. Mae swyddogion yn hybu gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol ymhlith staff ac yn creu amgylchedd gwaith cefnogol. Mae strwythur atebolrwydd rhwng arweinwyr yr awdurdod lleol a swyddogion DCSG yn glir ac maent yn cydweithio'n gyson wrth ddatblygu darpariaeth Cymraeg i oedolion.

Mae angerdd y Swyddog Dysgu Cymunedol Cymraeg i Oedolion DCSG tuag at y Gymraeg yn amlygu'i hun yn ei harweinyddiaeth ofalgar dros y tiwtoriaid a'r dysgwyr. Mae'r Swyddog yn cydweithio'n glòs gyda Swyddog Dysgu Cymraeg fel aelod o'i thîm wrth gynnal tiwtoriaid yn gyson, er enghraifft wrth eu cefnogi i gyflwyno gweithgareddau fel rhan o'r ddarpariaeth dysgu o bell. Serch hyn, mae capasiti'r tîm bychan i weithredu ar draws holl feysydd cyfrifoldeb darparwr Cymraeg i Oedolion yn gyfyngedig.

Mae rolau swyddogion a thiwtoriaid DCSG yn glir gyda chyfrifoldebau priodol yn cael eu cyflwyno mewn swydd ddisgrifiadau addas. Mae'r darparwr yn arsylwi pob tiwtor yn flynyddol ac maent yn cynnig cymorth a chefnogaeth i diwtoriaid yn unol â'u targedau. Yn ystod y pandemig, cynhaliwyd arsylwadau gyda'r nod o ddarparu cefnogaeth fugeiliol yn bennaf, i diwtoriaid a dysgwyr. At ei gilydd, nid yw'r arsylwadau'n ddigon gwerthusol ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella, er enghraifft yn yr addysgu a'r dysgu. O ganlyniad, nid yw'r darparwr yn mynd i'r afael ag agweddau pwysig er mwyn eu gwella yn ddigon bwriadus fel rhan o'r trefniadau monitro a gwerthuso.

Mae'r darparwr wedi gweithio'n ddiwyd yn ystod y cyfnod clo i sicrhau bod gan bob tiwtor y medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu angenrheidiol i ddarparu cyrsiau o bell yn effeithiol. Mae tiwtoriaid yn mynychu hyfforddiant dysgu proffesiynol a gynigir gan y GDCG ar wahanol feysydd addysgu, fel y bo'n briodol, er enghraifft anghenion dysgu ychwanegol a chyflwyno elfennau gramadeg i ddysgwyr lefel mynediad. Mae tiwtoriaid newydd yn elwa o'r cyfle i gymhwyso fel tiwtoriaid trwy ddilyn cymhwyster cenedlaethol Cymraeg i Oedolion, sef Dechrau Dysgu. Mae hyn yn eu harfogi ag hyfforddiant a gwybodaeth broffesiynol angenrheidiol. Yn gyffredinol, mae disgwyliadau'r darparwr o diwtoriaid yn addas, ond nid yw disgwyliadau tiwtoriaid yn ddigon heriol bob tro i gefnogi ychydig o ddysgwyr i wneud cynnydd hyd orau eu gallu.

Mae'r darparwr yn cydweithio mewn partneriaeth â DCCPSG sy'n atebol am drefnu cyrsiau atodol, uwch a dwys Sir Gâr. Mae lleiafrif y tiwtoriaid yn hyrwyddo cyfleoedd atodol yn effeithol wrth annog dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg yn y sesiynau hyn. Mae'r cynnig sydd ar gael i ddysgwyr i ddatblygu eu medrau Cymraeg hyd eithaf eu gallu yn addas. Mae'r darparwr wedi datblygu partneriaethau gyda sefydliadau sy'n hybu'r Gymraeg ar draws a thu hwnt i'r Sir, er enghraifft gyda'r mentrau iaith. Mae hyn yn darparu cyfleoedd ychwanegol priodol i ddysgwyr ymarfer eu medrau ieithyddol y tu allan i wersi ffurfiol.

Mae'r darparwr yn defnyddio data lleol a chenedlaethol i gynllunio'n briodol ar gyfer anghenion y ddarpariaeth ac yn cydweithio â phartneriaid ar gyfer y lefelau uwch. Fodd bynnag, nid yw trefniadau olrhain dysgwyr i gyrsiau uwch wedi'u datblygu'n llawn i effeithio'n gadarn ar safonau a darpariaeth a gynigir i ddysgwyr.

Mae gan arweinwyr wybodaeth briodol am gostau rhaglenni a gweithgareddau eraill. Mae'r darparwr yn elwa o'i berthynas gyda'r awdurdod lleol, er enghraifft o ran llogi lleoliadau a gwasanaethau mewnol yr awdurdod ei hun sydd o fudd i staff a dysgwyr. Nid yw'r awdurdod yn brigdorri sydd yn golygu bod yr holl gyllid yn mynd tuag at waith Cymraeg i Oedolion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- dadansoddi'r deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr ac ystyried barn tiwtoriaid a staff drwy eu hymatebion holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â phennaeth y darparwr, cynrychiolydd y corff rheoli/corff llywodraethol, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol), a thiwtoriaid i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn ymgysylltu â dysgwyr i drafod eu gwaith ac i glywed eu barn am agweddau amrywiol ar y darparwr
- yn cyfarfod â grwpiau o ddysgwyr, fel cynrychiolwyr grwpiau llais y dysgwr
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau ac yn ymgymryd â theithiau dysgu i arsylwi dysgwyr mewn gwersi ac mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynlluniau gwella'r darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd y darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am gynnydd dysgwyr, cofnodion o gyfarfodydd staff a chyfarfodydd y corff rheoli/llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 27/05/2022

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad Cyhoeddi: 27/05/2022